Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Creu trosedd o aflonyddu rhywiol cyhoeddus

Yn cau 23:59 29 Gorffennaf 2024
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cwestiynau

**Pa mor gyffredin yw aflonyddu rhywiol cyhoeddus yn y wlad hon yn eich barn chi?**
Mae'n broblem gynyddol, mae gan bob merch a geneth sy'n gwneud ymarfer corff fel cerdded, rhedeg neu feicio straeon am bobl yn eu haflonyddu'n rhywiol yn gyhoeddus, naill ai drwy feirniadu eu cyrff neu ofyn am gael gweld mwy. Chwibanu neu weiddi rhywbeth rhywiol-awgrymog, neu wneud sylwadau nad oes mo'u heisiau na'u hangen. Gall wneud i ferched beidio â bod eisiau gadael y tŷ ar eu pen eu hunain, sy'n cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a chyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol.

**2. Ydych chi'n credu y dylai fod trosedd benodol o aflonyddu rhywiol cyhoeddus?**
- Ydw

**3. Os ydych yn credu y dylai fod trosedd benodol o aflonyddu rhywiol cyhoeddus, a fyddai hyn oherwydd (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**
- Byddai'n troseddoli ymddygiad nad yw eisoes yn droseddol.
- Byddai'n codi ymwybyddiaeth bod yr ymddygiadau hyn yn anghyfreithlon.
- Byddai'n atal pobl rhag cymryd rhan yn yr ymddygiadau hyn.

**4. Os ydych yn credu y byddai deddf newydd yn troseddoli ymddygiad nad yw eisoes yn droseddol, nodwch pa ymddygiadau.**
Y rheiny nad ydynt yn cynnwys cyffwrdd yn gorfforol ond sy'n ffurf ar aflonyddwch, ac y gellir eu gweld fel rhan o ddiwylliannau penodol.

**5. Os nad ydych yn credu y dylai fod trosedd benodol o aflonyddu rhywiol cyhoeddus, a fyddai hyn oherwydd (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**
Amherthnasol

**Byddai cwestiynau 6 – 13 yn berthnasol pe bai trosedd newydd o aflonyddu rhywiol cyhoeddus yn cael ei chyflawni. Rydym yn croesawu ymatebion gan y rhai sy'n cefnogi a'r rhai nad ydynt yn cefnogi trosedd newydd o aflonyddu rhywiol cyhoeddus.**

**6. A fyddai Opsiwn 1 yn fodel hyfyw?**
- Byddai

**7. A fyddai Opsiwn 2 yn fodel hyfyw?**

- Byddai

**8. Os ydych yn ystyried y byddai Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yn fodelau hyfyw, a ydych yn credu y byddai'r naill opsiwn neu'r llall yn fwy effeithiol? Eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

- Ydw (byddai opsiwn 2 yn fwy effeithiol) oherwydd mae'n darparu enghreifftiau o ymddygiad amhriodol a lle mae'r ddeddfwriaeth newydd yn berthnasol; er nad yw'n cynnwys yr holl bosibiliadau fe ddylai gynorthwyo i leihau mathau eraill o droseddau sydd â deddfwriaethau eisoes yn eu lle ar eu cyfer.

**9. Ydych chi'n credu bod ffordd well o lunio trosedd aflonyddu rhywiol cyhoeddus na naill ai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2?**

- Ddim yn gwybod

**10. Gan nodi nad yw'r rhestr o ymddygiadau enghreifftiol yn Opsiwn 2 yn holl gynhwysfawr, a ydych chi'n credu ei bod yn cynnwys y mathau mwyaf cyffredin o ymddygiad aflonyddu rhywiol cyhoeddus?**

- Ydw
- **Nac ydw**
- Ddim yn gwybod

**Os Na, pa rai ychwanegol fyddech chi'n eu cynnwys?**

Mae'n bosibl y bydd angen un i ganolbwyntio ar gam-drin penodol wrth wneud ymarfer corff neu deithio'n llesol, pa un ai yw hynny yn cynnwys cerdded, beicio, rhedeg, defnyddio cludiant cyhoeddus neu ddull teithio arall nad yw'n gerbyd mecanyddol modiwlar caeedig.

**11. A ydych yn ystyried y dylid eithrio unrhyw un o'r ymddygiadau enghreifftiol yn Opsiwn 2? Os felly, nodwch pam.**

- Dilyn person;
- Gwneud sylw anweddus neu ymosodol tuag at berson;
- Gwneud ystum anweddus neu ymosodol tuag at berson;
- Rhwystro person rhag gwneud taith;
- Gyrru neu reidio cerbyd yn araf yn agos at berson sy'n gwneud taith.
- **Ni ddylid eithrio unrhyw un ohonynt.**
- Ddim yn gwybod

**12. A ydych yn ystyried mai uchafswm y ddedfryd a gynhwysir yw'r un gywir?**

- Ydw

**13. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar Opsiynau 1 a 2?**

Nac oes

**14. A ydych yn credu y byddai cyflwyno trosedd newydd o aflonyddu rhywiol cyhoeddus â goblygiadau i adnoddau'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol?**
Ydw (darparwch ragor o fanylion), bydd yn arwain at ddefnyddio adnoddau i gofnodi digwyddiadau a mynd ar ôl unigolion sy'n cyflawni troseddau.

**15. A ydych yn credu bod y camau anneddfwriaethol y mae'r Llywodraeth ac awdurdodau statudol eraill wedi bod yn eu cymryd i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol cyhoeddus – fel y nodir yn adran 2 o'r ddogfen hon – yn ddigonol? Rydym yn croesawu atebion gan y rhai sy'n credu y dylai fod trosedd newydd o aflonyddu rhywiol cyhoeddus a'r rhai nad ydynt yn credu hynny.**

- Nac ydw

**16. Os ydych yn credu nad yw'r camau hynny'n ddigonol, pa gamau anneddfwriaethol ychwanegol ydych yn credu y dylai'r Llywodraeth ac awdurdodau statudol eraill eu cymryd?**
Mae angen ymgyrch ymwybyddiaeth gryfach. Roedd yn dderbyniol ysmygu dan do mewn lleoliadau cyhoeddus, mae deddfwriaeth ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth wedi atal hyn bellach. Roedd hynny'n newid i ddiwylliant, yn union fel y bydd dod ag aflonyddwch rhywiol i ben.

**17. Yn benodol, a oes unrhyw gamau anneddfwriaethol eraill y dylai'r Llywodraeth eu cymryd i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol cyhoeddus sy'n digwydd yn economi'r nos?**

- Oes (nodwch ba rai) – ymgyrch gryfach sy'n dangos nad yw'n ymddygiad priodol ar-lein nac mewn lleoliadau cyhoeddus. Bydd cynnydd mewn iaith ac ymddygiad cas at ferched yn symud yn rhwydd rhwng lleoliadau cyhoeddus a llwyfannau ar-lein, ni fydd modd datrys un heb ganolbwyntio ar y llall hefyd. Er y gellir rheoli aflonyddwch ar-lein drwy ddeddfwriaeth arall, ni ddylai hynny atal ymgyrch a rennir sy'n sicrhau nad yw aflonyddwch rhywiol yn dderbyniol mewn unrhyw le yn y DU yn yr 21ain ganrif.